

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Crynodeb o Fil

## Bil Cynllunio (Cymru)

Rhagfyr 2014

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



Y Gwasanaeth  
Ymchwil

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiuedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gfael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:  
[www.cynulliadcymru.org/research](http://www.cynulliadcymru.org/research)

Mae copïau printiedig hefyd ar gael:

Y Gwasanaeth Ymchwil  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

E-bost: [Research.Service@Assembly.Wales](mailto:Research.Service@Assembly.Wales)  
Twitter: @SeneddYmchwil

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2014

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 14/2592  
Rhif dogfen:14/051

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Crynodeb o Fil

**Bil Cynllunio (Cymru)**

Rhagfyr 2014

Graham Winter, Helen Jones, Stephen Boyce

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



Y Gwasanaeth  
Ymchwil



# Cynnwys

<b>1. Rhagymadrodd</b> .....	<b>1</b>
<b>2. Y cefndir</b> .....	<b>3</b>
2.1. Cymhwysedd deddfwriaethol.....	3
2.2. Y fframwaith deddfwriaethol .....	3
2.3. Datblygu'r Bil .....	4
2.3.1. Y Trydydd Cynulliad – Adroddiad Pwyllgor ar Gynllunio .....	4
2.3.2. Y Grŵp Cynghori Annibynnol a chasgliad o dystiolaeth.....	5
2.3.3. Cynllunio Cadarnhaol a'r Bil Cynllunio Drafft.....	5
2.3.4. Newidiadau rhwng y Bil drafft a'r Bil diwygiedig .....	6
<b>3. Bil Cynllunio (Cymru): crynodeb o'r darpariaethau</b> .....	<b>7</b>
3.1. Rhan 1- Cyflwyniad.....	7
3.2. Rhan 2 – Cynllunio Datblygu.....	7
3.3. Rhan 3 – Gweithdrefn cyn ymgeisio .....	8
3.4. Rhan 4 – Ceisiadau i Weinidogion Cymru .....	9
3.5. Rhan 5 – Rheoli Datblygu .....	10
3.6. Rhan 6 – Gorfodi ac Apelau .....	12
3.7. Rhan 7 – Meysydd Tref a Phentref.....	13
3.8. 2.8 Rhan 8 – Darpariaethau Cyffredinol .....	14
<b>4. Goblygiadau ariannol y Bil</b> .....	<b>15</b>
4.1. Crynodeb o'r costau ychwanegol a'r arbedion fel y'u nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol .....	15
4.2. Is-ddeddfwriaeth a'r ddogfen bwriadau polisi. ....	16
<b>5. Yr ymateb i'r Bil</b> .....	<b>18</b>
5.1. Barn rhanddeiliaid .....	18
5.2. Datganiad ar y Bil Cynllunio yn y cyfarfod llawn ar 7 Hydref 2014 .....	18



# Bil Cynllunio (Cymru)

## 1. Rhagymadrodd

Cafodd Bil Cynllunio (Cymru) ei osod ar 6 Hydref 2014 a'i gyflwyno yn y cyfarfod llawn gan y Gweinidog Adnoddau Naturiol, Carl Sargeant AC, ar 7 Hydref 2014.

Nod cyffredinol y Bil yw creu system gynllunio fwy cyson sy'n galluogi datblygiadau ac sy'n gwella'r amgylchedd adeiledig a naturiol. Mae [Llywodraeth Cymru](#) wedi gosod pum amcan allweddol i'r Bil:

- fframwaith mwy modern ar gyfer darparu gwasanaethau cynllunio – o dan y Bil, bydd modd gwneud ceisiadau cynllunio'n uniongyrchol i Weinidogion Cymru o dan amgylchiadau penodol
- atgyfnerthu'r dull gweithredu seiliedig ar gynllun – bydd y Bil yn cyflwyno sail gyfreithiol dros baratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Chynlluniau Datblygu Strategol
- gwella cydnerthu – bydd y Bil yn caniatáu i Weinidogion orchymyn i awdurdodau cynllunio lleol weithio gyda'i gilydd a bod awdurdodau cynllunio lleol yn cael eu huno
- rhoi mwy o bwyslais ar brosesau cychwynnol y system rheoli datblygu a'i gwella – bydd y Bil yn cyflwyno gweithdrefn cyn ymgeisio statudol ar gyfer categorïau penodol o geisiadau cynllunio
- galluogi gweithdrefnau gorfodi ac apelio effeithiol – bydd y Bil yn gwneud newidiadau i weithdrefnau gorfodi er mwyn sicrhau bod camau uniongyrchol ac ystyrlon yn cael eu cymryd pan fydd rheolaethau cynllunio'n cael eu torri ac er mwyn gwneud y system apelio yn fwy tryloyw ac effeithlon.

Gwnaeth y Gweinidog sy'n gyfrifol am y Bil, Carl Sargeant AC, ddatganiad yn y cyfarfod llawn ar 7 Hydref 2014.<sup>1</sup>

---

<sup>1</sup> Cofnod Trafodion Cyfarfod Llawn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Datganiad: Y Bil Cynllunio \(Cymru\)](#) 7 Hydref 2014

Mae Bil Cynllunio (Cymru) wedi'i gyfeirio at Bwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar gyfer gwaith craffu. Ar 23 Medi 2014, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar ddyddiad cau ar gyfer Pwyllgor Cyfnod 1, sef adrodd erbyn 30 Ionawr 2015 a dyddiad cau i gwblhau trafodion Pwyllgor Cyfnod 2, sef 27 Mawrth 2015.

Mae Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd wedi cynnal [ymgyngoriad](#) ar egwyddorion cyffredinol y Bil, a ddaeth i ben ar 7 Tachwedd. Mae'r Pwyllgor wrthi'n ystyried y Bil yng Nghyfnod 1 a dechreuodd gymryd tystiolaeth ar 27 Tachwedd 2014.



## 2. Y cefndir

### 2.1. *Cymhwysedd deddfwriaethol*

Mae gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol dros lawer o agweddau cynllunio, ond nid y cyfan. Mae Atodlen 7, Rhan 1, o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* yn rhestru'r pynciau sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad. Mae Memorandwm Esboniadol y Bil yn nodi'r pynciau a ganlyn yn Atodlen 7 sy'n berthnasol i'r Bil:

#### **Cynllunio Gwlad a Thref**

18. Cynllunio gwlad a thref [...] Cynllunio gofodol. Datblygu trefol.

#### **Llywodraeth Leol**

12. Cyfansoddiad, strwythur ac ardaloedd awdurdodau lleol. [...] Pwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol a'u haelodau a'u swyddogion.

#### **Yr Amgylchedd**

6. [...] Meysydd tref neu bentref

#### **Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

14. Ymchwiliadau o ran materion y mae Gweinidogion Cymru yn arfer swyddogaethau mewn perthynas â hwy.

### 2.2. *Y fframwaith deddfwriaethol*

Dyma'r prif ddarnau o ddeddfwriaeth sylfaenol ynglŷn â chynllunio yng Nghymru:

- *Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990*
- *Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004*
- *Deddf Cynllunio 2008*

Byddai Bil Cynllunio (Cymru) yn diwygio deddfwriaeth bresennol sy'n gymwys i Gymru a Lloegr, sef yn bennaf *Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990* a *Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004*. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Atodlen Keeling sy'n dangos effeithiau'r diwygiadau ar y ddwy Ddeddf hyn.

Er hynny, mae llawer o sylwedd y fframwaith deddfwriaethol ynglŷn â chynllunio i'w weld mewn is-ddeddfwriaeth ac mewn polisi a chanllawiau, ac mae'r Bil yn cynnwys nifer arwyddocaol o ddarpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth. Mae'r rhain wedi'u nodi ym mhennod 5 (t51) o'r Memorandwm Esboniadol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi [datganiadau o fwriad polisi](#) sy'n nodi'r ymagwedd bolisi gyfredol at is-ddeddfwriaeth ym Mil Cynllunio (Cymru). Mae hi wrthi'n ymgynghori hefyd ar rai o ddarpariaethau'r Bil:

- [Rhoi pwyslais ar brosesau cychwynnol y system rheoli datblygu](#): Rhan 3 Adrannau 15 ac 16; Rhan 5 Adran 35
- [Pwyllgorau cynllunio, dirprwyo a byrddau cynllunio ar y cyd](#): Rhan 5 Adran 37
- [Dylunio yn y broses gynllunio](#): Rhan 5 Adran 27

### *2.3. Datblygu'r Bil*

#### *2.3.1. Y Trydydd Cynulliad – Adroddiad Pwyllgor ar Gynllunio*

Roedd diwygio'r system gynllunio yng Nghymru, gan gynnwys cydgrynhoi deddfwriaeth gynllunio, yn rhan o ymchwiliad gan Bwyllgor Cynaliadwyedd y Trydydd Cynulliad ar [system gynllunio defnyddio tir yng Nghymru](#). Un o argymhellion y Pwyllgor hwnnw ym mis Ionawr 2011 oedd y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno Bil Cynllunio ar gyfer Cymru. Cafodd yr argymhelliad ei nodi gan Lywodraeth Cymru ar y pryd. Ar ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad, cyhoeddodd [Prif Weinidog Cymru Fil Cynllunio](#) er mwyn:

Consolidate existing legislation to make the planning system more transparent and accessible. It will also provide an opportunity to reconsider roles and responsibilities, helping us to ensure that we have a planning system that can help deliver economic renewal.

Ym mis Gorffennaf 2013, [cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru](#) y câi Bil Cynllunio ei gyhoeddi a fyddai'n nodi rolau a chyfrifoldebau newydd i Weinidogion Cymru, awdurdodau lleol, datblygwyr a chymunedau.

Mae Bil Cydgrynhoi Cynllunio ar wahân (i greu fframwaith deddfwriaethol symlach i Gymru, yn hytrach na diwygio deddfwriaeth Cymru a Lloegr), wedi'i [gynnig hefyd](#)

[gan Lywodraeth Cymru](#), ond chaiff hwn mo'i gyflwyno yn ystod y Pedwerydd Cynulliad.

### *2.3.2. Y Grŵp Cyngkori Annibynnol a chasgliad o dystiolaeth*

Ym mis Hydref 2011 sefydlodd Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy Grŵp Cyngkori Annibynnol i adolygu sut roedd y system gynllunio'n gweithredu yng Nghymru a hynny fel rhan o'r dystiolaeth ar gyfer Papur Gwyn, yn arwain yn y pen draw at Fil Cynllunio i Gymru. Cyhoeddodd y Grŵp Cyngkori Annibynnol ei [adroddiad](#) ym mis Mehefin 2012. Nodwyd 97 o argymhellion i Lywodraeth Cymru. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn ffurfiol i'r argymhellion yn adroddiad y Grŵp Cyngkori Annibynnol.

### *2.3.3. Cynllunio Cadarnhaol a'r Bil Cynllunio Drafft*

Ym mis Rhagfyr 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [Cynllunio Cadarnhaol](#), papur ymgynghori ar ddiwygio system gynllunio Cymru. Cafodd [Bil Cynllunio \(Cymru\) drafft](#) ei gyhoeddi yr un pryd. Dywedodd papur ymgynghori [Cynllunio Cadarnhaol](#): "Rydym yn bwrw ymlaen â llawer o'r cynigion a gyflwynwyd gan yr GCA. Maent yn cael eu hegluro yn y papur ymgynghori hwn ac, os bydd angen deddfwriaeth sylfaenol, byddant yn cael eu cynnwys yn ein Bil drafft".

Yn ychwanegol, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu nifer o astudiaethau eraill o'r ac adroddiadau ymchwil o'r blaen sy'n ffurfio rhan o'r casgliad tystiolaeth ar gyfer y Bil.

Cafodd y rhain eu hystyried gan Bwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn eu gwaith craffu cyn y broses ddeddfu ynglŷn â'r Bil drafft a chynigion Cynllunio Cadarnhaol yn gynharach yn 2014. Ysgrifennodd y Pwyllgor at y [Gweinidog Tai ac Adfywio](#) ym mis Ebrill 2014 i nodi eu barn ar y pecyn diwygio a'r Bil drafft.

Dyma rai o bwyntiau allweddol y llythyr sy'n berthnasol wrth ystyried y Bil:

- Anhawster wrth bwysu a mesur effaith gofynion statudol newydd heb ragor o wybodaeth am eu hystyr nhw yn ymarferol (gan fod y rhain yn aml i gael eu nodi mewn Rheoliadau yn nes ymlaen);

- Yr angen am Asesiad Effaith Rheoliadol trylwyr er mwyn cael pwysu a mesur effaith y cynigion;
- Esboniad cliriach o'r cysylltiad rhwng y cynigion ar gyfer diwygio cynllunio a deddfwriaeth arall sy'n bodoli neu sydd yn yr arfaeth;
- Cymhlethdod y ddeddfwriaeth gynllunio bresennol ar gyfer Cymru a fydd yn cael ei waethgu gan y Bil;
- Effaith ad-drefnu llywodraeth leol a gostyngiad yn nifer yr awdurdodau cynllunio lleol ar y cynigion yn y Bil;
- Diben statudol i gynllunio ar wyneb y Bil, yn unol ag argymhelliad y Grŵp Cynghori Annibynnol;
- Argymhellion y Grŵp Cynghori Annibynnol ar ddiwygio'r broses Galw i mewn, Prynu Gorfodol a Chytundebau Adran 106 na chawson nhw eu cynnwys yn y Bil drafft;
- Penderfyniadau ar ddatblygu sy'n gysylltiedig ag NSIPs i gael eu gwneud gan Weinidogion Cymru yn hytrach na'r Awdurdodau Cynllunio Lleol.

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi ateb y llythyr hwn ac nid yw'r rhan fwyaf o argymhellion y Pwyllgor ar y Bil drafft wedi'u hadlewyrchu yn fersiwn diwygiedig y Bil.

#### *2.3.4. Newidiadau rhwng y Bil drafft a'r Bil diwygiedig*

Does dim newidiadau arwyddocaol rhwng y cynigion a nodwyd yn y Bil drafft a'r fersiwn diwygiedig. Mae'r Bil diwygiedig yn cynnwys rhai darpariaethau nad oedden nhw yn y Bil drafft, ond dywedodd y papur ymgynghori Cynllunio Cadarnhaol fod y rhain yn debyg o gael eu cynnwys pan gâi'r Bil ei gyflwyno. Enghreifftiau yw'r darpariaethau ynghylch gweithdrefnau gorfodi, safoni trefniadau pwyllgorau cynllunio ledled Cymru a meysydd tref a phentref. Mae Cynllunio Cadarnhaol yn cyfeirio at newid posibl yn rôl Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol fel Awdurdodau Cynllunio, ond nid yw'r Bil diwygiedig yn cynnwys newidiadau ynglŷn â swyddogaethau cynllunio Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol. Ar 25 Medi 2014, cyhoeddodd y Gweinidog Adnoddau Naturiol [Adolygiad Tirweddau Dynodedig yng Nghymru](#).

### 3. Bil Cynllunio (Cymru): crynodeb o'r darpariaethau

#### 3.1. *Rhan 1 – Cyflwyniad*

Mae **Rhan 1** yn rhoi trosolwg o'r Bil.

#### 3.2. *Rhan 2 – Cynllunio Datblygu*

Mae **Rhan 2** yn ymwneud â phroses y Cynllun Datblygu. Mae **adran 2** yn disodli Cynllun Gofodol Cymru (WSP) â chynllun cenedlaethol newydd, sef y **Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (NDF)**. Bydd darpariaethau yn cael eu mewnosod i ddeddfwriaeth sylfaenol, a fydd yn cyflwyno sail statudol i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol i Gymru. Bydd hyn yn rhan o'r 'cynllun datblygu' ffurfiol i Gymru (yn wahanol i Gynllun Gofodol Cymru) a bydd yn rhaid i gynlluniau datblygu a gaiff eu paratoi gan gyrff eraill (strategol a lleol) ystyried y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (gweler Adran 8 isod).

Mae hwn yn newid sylweddol gan ei fod yn cyflwyno mwy nag un haen o gynllun datblygu am y tro cyntaf yng Nghymru ers cyn yr ad-drefnu llywodraeth leol diwethaf ym 1996. Gellir defnyddio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol hefyd i ddynodi **Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol** (gweler Rhan 4 isod). Bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn cael ei osod gerbron y Cynulliad a bydd yn cael 60 diwrnod i ystyried y cynllun a chyflwyno adroddiad arno. Yna rhaid i Weinidogion Cymru "roi sylw i" safbwyntiau'r Cynulliad neu unrhyw un o'i bwyllgorau. Rhaid i'r cynllun gael ei adolygu a'i ddiwygio bob pum mlynedd. Mae'r darpariaethau hyn yn debyg i'r rhai sydd ar waith yn yr Alban yn [Fframwaith Cynllunio Cenedlaethol yr Alban](#).

Mae **adrannau 3–9** yn ymdrin â pharatoadau ar gyfer haen newydd o **Gynlluniau Datblygu Strategol (SDPs)** sy'n bwysicach na'r Cynlluniau Datblygu Lleol (LDPs) yn hierarchaeth y cynllun mewn rhannau o Gymru. Bydd hyn yn cynnwys dynodi **ardaloedd cynllunio strategol (SPA)** pan ystyrir bod angen Cynllun Datblygu Strategol a sefydlu **paneli cynllunio strategol (SPPs)** i baratoi dogfennau o'r fath. Pan fo Cynlluniau Datblygu Strategol yn bodoli, byddant hefyd yn ffurfio rhan o'r 'cynllun datblygu.'

Mae **adran 3** yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau yn dynodi ardal cynllunio strategol a sefydlu panel cynllunio strategol ar gyfer yr ardal honno. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori cyn dynodi ardal ar gyfer Cynllun Datblygu Strategol.

Mae **Atodlen 2A** o'r Bil yn ymdrin ag aelodaeth, gweinyddiaeth a threfniadau ariannol paneli cynllunio strategol. Bydd y panel yn cynnwys aelodau etholedig awdurdodau lleol (dwyrain o dair) ac aelodau enwebedig (un rhan o dair).

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ymgynghoriad pellach [Pwyllgorau cynllunio, dirprwyo a byrddau cynllunio ar y cyd](#) sy'n cynnwys mwy o fanylion am y trefniadau etholiadol ar gyfer paneli cynllunio strategol.

Mae **adrannau 10–13** yn gwneud newidiadau amrywiol i **broses y Cynllun Datblygu Lleol**.

Mae **adran 14** yn cyflwyno Atodlen 2 sy'n cynnwys newidiadau canlyniadol i Ddeddfau amrywiol.

### *3.3. Rhan 3 – Gweithdrefn cyn ymgeisio*

Mae **Rhan 3** yn cyflwyno gweithdrefnau newydd ar gyfer **ymgynghori cyn ymgeisio** a phwerau ynghylch darparu **gwasanaethau cyn ymgeisio**.

Bydd **adran 15** yn gofyn i ddarpar ymgeiswyr am ganiatâd cynllunio **ymgynghori â'r gymuned leol** ar rai mathau o gynigion datblygu cyn cyflwyno cais (i'w ddiffinio mewn Gorchymyn gan Weinidogion Cymru) a llunio adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwnnw. Bydd gofyn i'r adroddiad gael ei gynnwys fel rhan o'r cais cynllunio terfynol a gyflwynir gan yr ymgeisydd er mwyn i benderfyniad arno gael ei wneud.

Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio ymgynghoriad ar wahân '[Rhoi pwyslais ar brosesau cychwynol y system rheoli datblygu](#)' sy'n rhoi manylion pellach am sut y mae'n bwriadu defnyddio'r pwerau yn yr adran hon.

Bydd **Adran 16** yn caniatáu i ddarpar ymgeisydd am ganiatâd cynllunio ofyn am gyngor gan y corff penderfynu (yr Awdurdod Cynllunio Lleol neu Weinidogion Cymru) ar eu cynigion cyn i'r cais gael ei gyflwyno'n ffurfiol i'w ystyried. Bydd gan

y corff penderfynu ddyletswydd gyfreithiol i ddarparu'r **gwasanaeth cynghori cyn ymgeisio** hwn. Bydd manylion am ddarparu'r gwasanaeth hwn yn cael eu nodi yn yr is-ddeddfwriaeth. Bwriad Llywodraeth Cymru yw y **dylid codi ffioedd** ar gyfer y gwasanaethau ar sail 'adennill costau', o bosibl gan eithrio ffioedd ar gyfer datblygiadau gan ddeiliaid tai.

Mae ymgynghoriad ar wahân Llywodraeth Cymru '[Rhoi pwyslais ar brosesau cychwynol y system rheoli datblygu](#)' yn cwmpasu ei chynigion ar gyfer is-ddeddfwriaeth ar gyfer darparu gwasanaethau cynghori cyn ymgeisio o dan adran 16 ar **gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol yn unig** - ei bwriad yw ymgynghori ar wahân ar ddarparu gwasanaeth o'r fath gan Weinidogion Cymru.

### *3.4. Rhan 4 - Ceisiadau i Weinidogion Cymru*

Mae **adrannau 17-19** yn cyflwyno categori newydd o ganiatâd cynllunio a elwir yn **Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS)** y bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu arnynt. Bydd y rhain uwchlaw ceisiadau am ganiatâd cynllunio a gaiff eu penderfynu gan Awdurdodau Cynllunio Lleol, ond maent islaw'r rhai ar gyfer 'caniatâd datblygu' a gaiff eu penderfynu gan Lywodraeth y DU o dan gyfundrefn *Deddf Cynllunio 2008* (Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd - NSIPs, sef prosiectau ynni ar raddfa fawr yn bennaf yng Nghymru).

Mae **adran 17** yn ei gwneud yn ofynnol bod ceisiadau cynllunio ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yn cael eu gwneud i Weinidogion Cymru. Yn ogystal â rhagnodi'r meini prawf sy'n pennu beth yn union yw Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol yn y rheoliadau, bydd datblygiad yng Nghymru yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol os caiff ei bennu gan Weinidogion Cymru yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (gweler paragraff 2.2 uchod).

Bydd **adran 18** yn sicrhau bod **caniatadau eilaidd cysylltiedig** sy'n gysylltiedig â cheisiadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yn cael eu gwneud yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru, pan fo datblygwyr yn gwneud cais amdanynt. Cânt eu disgrifio yn yr is-ddeddfwriaeth.

Mae **adran 19** yn ofyniad i awdurdodau cynllunio lleol y mae cais Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol yn effeithio arnynt baratoi **Adroddiad Effaith Lleol**.

Bydd **adran 20** yn rhoi cyfle i ddatblygwyr wneud cais am ganiatâd cynllunio yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru o dan amgylchiadau pan ystyrir bod yr **awdurdod cynllunio lleol yn 'tanberfformio'**. Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r meini prawf i'w cymhwyso wrth ddynodi bod awdurdod cynllunio lleol yn 'tanberfformio' a hefyd wrth ddirymu dynodiad o'r fath.

Mae **adran 21** yn nodi y bydd **penderfyniad** ar gais a wneir gan Weinidogion Cymru, naill ai cais Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol neu gais o dan Adran 20, **yn derfynol**, felly ni fydd hawl i apelio ar gyfer ceisiadau o'r fath.

Mae **adrannau 22–25** yn galluogi Gweinidogion Cymru i benderfynu sut y bydd Gweinidogion Cymru'n penderfynu ar geisiadau, gan gynnwys y gweithdrefnau sydd i'w dilyn, sut yr ymdrinnir â cheisiadau, a phenodi personau i ystyried ceisiadau.

### *3.5. Rhan 5 – Rheoli Datblygu*

Mae **Rhan 5** yn ymdrin ag agweddau ar y broses rheoli datblygu. Mae **adrannau 26–37** yn gwneud nifer o newidiadau i'r broses bresennol. Mae'r rhain yn cynnwys gofyniad ar ddatblygwyr i roi gwybod i'r awdurdod cynllunio lleol pryd fydd datblygiad yn dechrau ac i ddarparu gwybodaeth ychwanegol, hawl newydd i apelio i Weinidogion Cymru yn erbyn achosion o beidio â phenderfynu ar sail dilysrwydd a phŵer i Weinidogion Cymru ofyn i awdurdod cynllunio lleol ddirprwyo rhai swyddogaethau yn ymwneud â cheisiadau cynllunio ac i nodi maint/aelodaeth pwyllgorau cynllunio. Mae rhai o'r darpariaethau hyn eisoes ar waith yn Lloegr.

Mae **adran 26** yn cyflwyno cyfyngiadau yng Nghymru ar bŵer awdurdodau cynllunio lleol i ofyn am wybodaeth i gyd-fynd â cheisiadau cynllunio. Rhaid i geisiadau am wybodaeth fod yn 'rhesymol ac yn berthnasol'.

Bydd **adran 27** yn cael gwared ar y darpariaethau deddfwriaeth sylfaenol sy'n gofyn am **ddatganiadau dylunio a mynediad** i gyd-fynd â cheisiadau cynllunio am



rai mathau o ddatblygiadau. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ei bod yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau dyluniad da mewn datblygiad sy'n cynnwys trefniadau mynediad cynhwysol. Mae wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar [Ddylunio yn y Broses Gynllunio](#).

Mae **adran 28**, yn gryno, yn rhoi **hawl i ymgeiswyr apelio** i Weinidogion Cymru pan fydd yr awdurdod cynllunio lleol wedi **penderfynu peidio â dilysu eu cais cynllunio**.

Mae **adran 29** yn dirymu *Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ceisiadau) 1988* at bob diben.

Bydd **adran 30** yn caniatáu i awdurdodau cynllunio lleol **wrthod derbyn ceisiadau cynllunio ôl-weithredol** lle mae **hysbysiad gorfodi eisoes wedi'i gyflwyno**, i sicrhau nad oes oedi yn y broses orfodi.

Mae **adran 31** yn nodi **ffurf a dull hysbysiadau penderfynu** a gyhoeddwyd gyda chaniatadau cynllunio (gan gynnwys gofyn i gynlluniau neu ddogfennau eraill o ran y datblygiad gael eu nodi ar yr hysbysiad penderfynu).

Mae **adran 32** yn rhoi gofyniad ar ddatblygwyr i **hysbysu'r awdurdod cynllunio lleol o'r dyddiad y bydd y datblygiad yn dechrau** a manylion y caniatâd cynllunio i'w weithredu. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwr **arddangos** ar neu ger safle'r datblygiad **hysbysiad o benderfyniad** i roi caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad hwnnw.

Mae **adrannau 33 a 34** yn gwneud newidiadau i adlewyrchu cyfraith achos fel bod y **terfyn amser** sy'n gymwys pan fydd caniatâd sy'n amrywio neu'n dileu amodau o ganiatâd cynllunio blaenorol yn cael ei roi, **yr un fath â'r terfyn amser ar gyfer y caniatâd gwreiddiol**.

Mae **adran 35** yn gwneud nifer o ddarpariaethau am **ymgyngoreion statudol** yn y cyfnod 'ôl-benderfynu', yn ymwneud â cheisiadau i gymeradwyo materion a gadwyd, cyflawni amodau cynllunio, a cheisiadau ar gyfer newidiadau amherthnasol i ganiatâd cynllunio. Bydd yn sicrhau, pan ymgynghorir gydag ymgynghorai statudol ar geisiadau o'r fath, fod rhaid iddynt ddarparu "ymateb sylweddol".

Yn dibynnu ar y math o gais, mae ymgynghoreion statudol yn y broses gynllunio yn cynnwys sefydliadau fel Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a Chyngor Chwaraeon Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio ymgynghoriad ar wahân '[Rhoi pwyslais ar brosesau cychwynnol y system rheoli datblygu](#)' sy'n rhoi rhagor o fanylion am sut mae'r Bil yn effeithio ar ymgynghoreion statudol.

Bydd **Adran 36** yn galluogi'r broses sy'n arwain at **gau neu wyro llwybrau cyhoeddus** i ddechrau cyn rhoi caniatâd cynllunio. Mae'r ddarpariaeth hon eisoes ar waith yn Lloegr.

Bydd **Adran 37** yn:

- cyflwyno **cynllun dirprwyo cenedlaethol**. Bydd y ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i'w gwneud yn ofynnol i awdurdod cynllunio lleol wneud trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau yn ymwneud â cheisiadau cynllunio drwy **bwyllgor, is-bwyllgor neu un o swyddogion yr Awdurdod**;
- caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, ragnodi gofynion yn ymwneud â **maint a chyfansoddiad pwyllgorau cynllunio**.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ymgynghoriad pellach [Pwyllgorau cynllunio, dirprwyo a byrddau cynllunio ar y cyd](#) ynghylch defnyddio'r pwerau hyn.

### *3.6. Rhan 6 – Gorfodi ac Apelau*

Bydd **adran 38** yn galluogi awdurdodau cynllunio lleol i gyhoeddi **hysbysiadau rhybudd gorfodi**. Byddant yn gallu gwneud hyn os ymddengys iddynt bod y rheolaeth gynllunio wedi'i thorri a bod "rhagolwg rhesymol" y byddai caniatâd cynllunio yn cael ei roi os cyflwynir cais. Mae'r ddarpariaeth hon eisoes yn bodoli yn Lloegr.

Bydd **adrannau 39, 40 a 41** yn gwneud newidiadau technegol i newid gweithdrefnau cyfredol fel yn y dyfodol na fyddai **ond un llwybr i gael caniatâd cynllunio wedi'i roi drwy apêl**.

Bydd **adran 42** yn **atal amrywiad** rhai ceisiadau cynllunio a mathau eraill o geisiadau unwaith y bydd **hysbysiad o apêl wedi'i gyflwyno**.

Bydd **adran 43** yn trosglwyddo cyfrifoldeb dros bennu **apelau yn erbyn hysbysiadau** a gyhoeddwyd o dan Adran 215 o *Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990* (am dir sy'n effeithio'n andwyol ar amwynder) o Lysoedd Ynadon i **Weinidogion Cymru**. Mae newid o'r fath eisoes wedi'i wneud yn Lloegr.

Mae **adran 44** yn ymwneud â **thalu a dyfarnu costau**. Darpariaeth annibynnol yw hon i gostau gael eu dyfarnu o ganlyniad i **gais, apêl neu gyfeiriad at Weinidogion Cymru**.

Mae **adran 45** yn darparu pwerau ynglŷn ag **apelau a galwadau i mewn** gan Weinidogion Cymru sy'n cael eu trin gan yr Arolygiaeth Gynllunio. Byddant yn galluogi Gweinidogion Cymru:

- i gyflwyno rheoliadau i nodi'r **weithdrefn** i'w dilyn mewn cysylltiad ag **ymchwiliad, gwrandawriad neu sylwadau ysgrifenedig**;
- i gyflwyno rheoliadau i bennu na fydd mater yn cael ei godi mewn trafodion ar apêl a wneir i Weinidogion Cymru oni bai iddo gael ei godi'n flaenorol cyn yr amser a bennwyd neu os dangosir na ellid bod wedi'i godi cyn yr amser hwnnw.

Mae **adran 46** yn cyflwyno Atodlen 5 sy'n gwneud newidiadau canlyniadol, technegol yn ymwneud â'r gweithdrefnau costau ac apelau.

### *3.7. Rhan 7 – Meysydd Tref a Phentref*

Bydd **adrannau 47–50** yn gwahardd ceisiadau rhag cael eu gwneud i **gofrestru Meysydd Tref a Phentref** pan fo'r tir wedi cyrraedd y system gynllunio. Mae'r rhain yn dyblygu newidiadau a gyflwynwyd yn Lloegr gan *Ddeddf Twf a Seilwaith 2013*.

Mae'r Datganiadau o Fwriad y Polisi yn nodi bod y diffyg integreiddio rhwng y system gynllunio a'r system ar gyfer cofrestru Meysydd Tref a Phentref wedi'i nodi yn "broblem, gan fod achosion cynyddol o ddefnyddio'r system cofrestru Meysydd Tref neu Bentref fel ffordd o rwystro datblygiad yn hytrach nag at ddiben diogelu

ardal benodol o dir”. Mae hefyd yn nodi y bydd y “diogelwch cryf sy’n bodoli ar gyfer meysydd tref neu bentref cofrestredig yn parhau’n ddigyfnewid”.

### *3.8. Rhan 8 – Darpariaethau Cyffredinol*

Mae’r rhan hon yn cynnwys darpariaethau cyffredinol yn ymwneud â’r Bil.

## 4. Goblygiadau ariannol y Bil

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) manwl i'w weld yn y Memorandwm Esboniadol. Mae hwn yn dangos costau a manteision yr opsiynau sy'n cael eu hystyried o dan bob adran ar sail chwe phrif faes y Bil:

- Cynllunio Datblygu
- Cyn ymgeisio
- Pwerau Gweinidogion Cymru i wneud penderfyniadau
- Rheoli Datblygu
- Gorfodi ac Apelau
- Meysydd Tref a Phentref (TVGs)

Ategir yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd gan ddogfen fethodoleg ar wahân sy'n rhoi manylion am gyfrifiadau, rhagdybiaethau a ffynonellau'r costau a'r arbedion. Yn ogystal, comisiynodd Llywodraeth Cymru ARUP i gynnal astudiaeth ar geisiadau cynllunio seilwaith, busnes a masnach a gyflwynwyd yng Nghymru i hysbysu cynigion Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol dan adran pwerau gwneud penderfyniadau Gweinidogion Cymru.

### *4.1. Crynodeb o'r costau ychwanegol a'r arbedion fel y'u nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol*

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn esbonio **na fu modd cynhyrchu un amcangyfrif cyffredinol o effaith ariannol y ddeddfwriaeth** oherwydd y gwahanol ddarpariaethau yn y Bil sy'n gwneud cymariaethau manwl gywir yn amhosibl. Mae Atodiad A yn darparu crynodeb o'r costau ychwanegol a'r arbedion blynyddol i Lywodraeth Cymru, awdurdodau cynllunio lleol, y diwydiant datblygu a rhanddeiliaid eraill. Mae'r diwydiant datblygu yn cynnwys y cyhoedd a deiliaid tai. Mae 'rhanddeiliaid eraill' yn cyfeirio at ymgylgoreion statudol a llysoedd ynadon. Ceir manylion am gostau untro yn yr adran hon, hefyd, a gyfrifir fesul achos.

Mae Tabl 1 yn rhoi crynodeb o'r costau a'r arbedion ychwanegol a ddaw o ganlyniad i weithredu'r ddeddfwriaeth, er nad yw'n cynnwys costau untro gan fod

nifer o'r rhain yn dibynnu ar nifer yr achosion y flwyddyn. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cyfrifo y bydd cyfanswm y gost ychwanegol dros bum mlynedd cyntaf y Bil tua £6.1 miliwn. Mae'r gost hon yn cael ei gosod yn erbyn cyfanswm yr arbedion o £7.9 miliwn, gan adael balans net o £1.8 miliwn o arbedion.

Dywed yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol y gellir diwallu'r rhan fwyaf o'r costau a ddaw yn sgil y Bil drwy gynydd bach mewn adnoddau, ac ar y cyfan ceir aiddosbarthu cyfyngedig o'r costau a'r arbedion ychwanegol rhwng Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Cynllunio Lleol a'r diwydiant datblygu.

Tabl 1: Tabl cryno o gostau ychwanegol ac arbedion net y Bil fesul sector; 2015–16 i 2019–20

	2015–16	2016–17	2017–18	2018–19	2019–20	TOTAL
WG additional cost	71,348	342,853	222,853	222,853	222,853	1,082,760
WG savings	0	-151,347	-151,347	-151,347	-151,347	-605,388
<b>WG net</b>	<b>71,348</b>	<b>191,506</b>	<b>71,506</b>	<b>71,506</b>	<b>71,506</b>	<b>477,372</b>
LPA additional cost	0	95,129	795,129	795,129	795,129	2,480,516
LPA savings	0	-356,012	-356,012	-356,012	-356,012	-1,424,048
<b>Local Planning authority net</b>	<b>0</b>	<b>-260,883</b>	<b>439,117</b>	<b>439,117</b>	<b>439,117</b>	<b>1,056,468</b>
DI additional cost	0	630,093	630,093	630,093	630,093	2,520,372
DI savings	0	-1,428,775	-1,432,075	-1,432,075	-1,432,075	-5,725,000
<b>Development Industry net</b>	<b>0</b>	<b>-798,682</b>	<b>-801,982</b>	<b>-801,982</b>	<b>-801,982</b>	<b>-3,204,628</b>
Other stakeholders cost	0	1,050	1,050	1,050	1,050	4,200
Other stakeholders savings	0	-26,900	-26,900	-26,900	-26,900	-107,600
<b>Other stakeholders net</b>	<b>0</b>	<b>-25,850</b>	<b>-25,850</b>	<b>-25,850</b>	<b>-25,850</b>	<b>-103,400</b>

Ffynhonnell: EMRIA a llythyr Llywodraeth Cymru

#### 4.2. Is-ddeddfwriaeth a'r ddogfen bwriadau polisi.

Mae nifer o adrannau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cyfeirio at **gostau ac arbedion ychwanegol a fydd yn digwydd yng nghyfnod yr is-ddeddfwriaeth.**

Ymhlith pethau eraill, mae'r rhain yn cynnwys Hysbysiadau Penderfyniad, Ymgynghoriadau Statudol – Ymgynghoriadau Cyn Cyflwyno Cais, trothwyon ar gyfer ceisiadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a ffioedd ceisiadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y bydd ymgynghoriadau ac Asesiadau Effaith Rheoleiddiol pellach yn cael eu paratoi yn y dyfodol. Cafodd dogfen [Datganiadau o Fwriad Polisi](#) ei chyhoeddi ar 10 Tachwedd 2014 sy'n rhoi rhagor o fanylion am y dull polisi sydd yn y Bil ar gyfer is-ddeddfwriaeth. Mae'r ddogfen hon yn nodi y bydd pob maes polisi yn amodol ar ei broses ymgynghori a chraffu ei hunan.

Pan ysgrifennwyd hyn, roedd [tri ymgynghoriad](#) ac un Aseiad Effaith Rheoleiddiol wedi cael eu cyhoeddi a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â darpariaethau yn y Bil. Mae'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol ychwanegol yn ymwneud â [Phwyllgorau cynllunio, dirprwyo a byrddau cynllunio ar y cyd – Atodiad 1 Drafft o Aseiad Effaith Rheoleiddiol](#). Yn ogystal, mae ymgynghoriad parhaus ar wahân ac Aseiad Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas ag [adolygu Ffioedd Ceisiadau Cynllunio](#). Mae'n anodd canfod costau a buddion llawn y Bil heb fanylion y ddeddfwriaeth eilaidd arfaethedig.

## 5. Yr ymateb i'r Bil

### 5.1. *Barn rhanddeiliaid*

Drwy waith craffu'r Pwyllgor cyn y broses ddeddfu ac ar sail rhai o'r ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ei hun ynghylch Cynllunio Cadarnhaol a'r Bil drafft (lle mae'r rhain wedi'u cyhoeddi mewn manau eraill) mae yna lefel eang o gefnogaeth i lawer o'r cynigion ac i'r pwyslais newydd ar 'reoli datblygu' yn hytrach na 'rheoleiddio datblygu'. Ond mae rhai pryderon wedi'u mynegi am rai agweddau ar y Bil, gan gynnwys:

- y cyfiawnhad dros haenau ychwanegol o gynlluniau datblygu;
- cyfansoddiad paneli strategol y Cynlluniau Datblygu Strategol ac atebolrwydd democrataidd rhanddeiliaid cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol fel rhan o'r paneli hyn;
- y goblygiadau o ran y costau i awdurdodau cynllunio lleol, datblygwyr ac eraill;
- rôl Gweinidogion Cymru wrth benderfynu ar rai ceisiadau cynllunio, y goblygiadau o ran atebolrwydd lleol a'r diffyg hawl i apelio;
- diffyg darpariaethau yn y Bil i warchod y Gymraeg;
- sut bydd diwygiadau o ran cynllunio defnyddio tir yn integreiddio â chfundrefnau cynllunio eraill, megis y rhai ar gyfer trafndiaeth, adnoddau naturiol, Dinas-ranbarthau a'r Môr;
- a fydd y Parciau Cenedlaethol yn cadw eu swyddogaethau cynllunio neu beidio;
- y cynigion i atal cofrestru Meysydd Tref a Phentref ar ôl i gynnig datblygu ddod i mewn i'r system gynllunio.

### 5.2. *Datganiad ar y Bil Cynllunio yn y cyfarfod llawn ar 7 Hydref 2014*

Cafodd y Bil ei gyflwyno gan y Gweinidog, **Carl Sargeant AC**, a ddywedodd:



Mae hwn yn ddarn allweddol o ddeddfwriaeth i'r Cynulliad, gan mai dyma'r cyfle cyntaf i ddiwygio cyfraith cynllunio i ddarparu system sy'n cyflawni dros Gymru. Os caiff ei phasio, bydd y ddeddfwriaeth yn darparu'r offer i sicrhau gwasanaeth cynllunio teg a chydnerth, a fydd yn sicrhau y gellir darparu'r cartrefi, y swyddi a'r seilwaith sydd eu hangen ar ein cymunedau i gyd.

Yn y drafodaeth wedyn, ar ran y Ceidwadwyr mynegodd **Russell George AC** bryder:

Bil fframwaith arall yw hwn, gyda llawer o'r cig polisi yn dilyn mewn is-ddeddfwriaeth, sydd, unwaith eto, yn golygu na chawn gyfle fel deddfwrfa i graffu rhyw lawer ar eich syniadau sylfaenol ynghylch sut y caiff y ddeddfwriaeth ei gweithredu'n llawn.

Roedd ganddo bryderon hefyd yn gynlluniau datblygu strategol, paneli cynllunio strategol a'r pwerau a oedd yn cael eu rhoi i Weinidogion Cymru, yr oed dyn credu eu bod yn erydu democratiaeth. Disgrifiodd hyn fel "haen arall o lywodraethu cynllunio a fydd yn gwaethygu'r sefyllfa o ran diffyg atebolrwydd a democratiaeth". Cododd bryderon hefyd am y ffaith y byddai Gweinidogion Cymru'n gwneud penderfyniadau ar rai ceisiadau cynllunio:

Felly, pam y mae'r Llywodraeth yn credu, mewn perthynas â datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol, fod cael gwared ar bwerau llywodraeth leol yn mynd i wella'r diwylliant cynllunio, gwella ymgysylltu â'r gymuned, a gwneud y system yn fwy tryloyw ac atebol?

Cydnabu'r **Gweinidog** mai Bil Fframwaith oedd y Bil, gan ddweud bod hynny'n cynnig hyblygrwydd. Dywedodd fod ymgynghoriadau a datganiadau o fwriad yn cael eu cyhoeddi ynglŷn â defnyddio'r pwerau yn y Bil i wneud is-ddeddfwriaeth. Disgwyliai'r Gweinidog mai dim ond rhyw ddau gynllun datblygu strategol a geid. Byddai'r awdurdodau lleol yn aelodau â phleidlais ar y paneli cynllunio strategol.

Gofynnodd **Julie Morgan AC**, ar ran Llafur, i'r Gweinidog ddweud sut y câi lleisiau plant a phobl ifanc eu clywed yn y broses gynllunio, gan holi hefyd am y cyfyngiad posibl ar hawliau dinasyddion o ran meysydd tref a phentref.

Atebodd y **Gweinidog** fod y Bil yn cynnwys gofynion i'r awdurdodau lleol ymgynghori, sef gofynion a fyddai'n cryfhau'r cysylltiad cymunedol. Dywedodd ei fod yn gwybod am bryderon ynglŷn â manau agored a meysydd pentref a bod y

materion hynny'n cael eu trafod: "Rwyf yn hapus i wneud gwelliannau'r Llywodraeth yn amodol ar gytundeb â'r ddwy ochr".

Roedd **Llyr Gruffydd AC**, ar ran Plaid Cymru, yn gofidio y byddai'r Bil yn creu'r hyn a oedd yn ei farn ef yn gyfundrefn gynllunio 'o'r top i lawr', ac y byddai paneli cynllunio strategol yn symud penderfyniadau ymhellach oddi wrth gymunedau ac yn tanseilio atebolrwydd democrataidd gan y byddai un rhan o dair o'u haelodau'n cael eu henwebu. Roedd yn credu y dylai'r Bil gynnwys diben statudol i gynllunio yng Nghymru a fyddai'n amlygu ei gyfraniad at ddatblygu cynaliadwy, gan gynnwys y Gymraeg. Roedd yn poeni hefyd fod y Bil yn ildio gormod o bwerau i Weinidogion Cymru.

Atebodd y **Gweinidog** na fyddai dim newid yn y broses ddemocrataidd o ran paneli cynllunio strategol. Er hynny, dywedodd y byddai'n gwrando'n "ofalus iawn" ar bryderon yr Aelodau bod un rhan o dair o aelodaeth y paneli heb gael eu hethol ac eto i gyd yn cael pleidleisio. Roedd yn bosibl y ceid gwelliant gan y Llywodraeth i fynd i'r afael â'r pryderon. Nid oedd yn derbyn bod angen diben statudol er mwyn mynd i'r afael, er enghraifft, â'r Gymraeg gan ei fod yn credu bod hynny'n cael sylw ym Mil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Roedd **William Powell AC**, ar ran y Democratiaid Rhyddfrydol, hefyd yn gofidio ynglŷn â'r hyn oedd yn ei farn ef yn organoli a llai o gyfraniad cyhoeddus at Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Gofynnodd am sicrwydd gan y Gweinidog y byddai'r Bil yn cynnwys pwerau estynedig dros roi caniatâd dros ynni i Gymru, yn unol ag argymhelliad adroddiad Silk II, ac ynghylch rôl Cyfoeth Naturiol Cymru sydd â phwerau ar hyn o bryd dros drwyddedau a chaniatadau. Gofynnodd i'r Gweinidog hefyd a fyddai pob cais am ddulliau anghonfensiynol o chwilio am nwy a'i godi a fyddai'n cynnwys 'ffracio' yn cael ei gynnwys yn rhestr y Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, o gofio effaith eang proses 'ffracio'.

Ailadroddodd y Gweinidog ddiben Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol gan ddweud y byddai penderfyniadau ar beth fyddai'n cael ei gynnwys yn y rhestr o Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yn cael eu gwneud yn nes ymlaen. Rhoddodd enghraifft o sut roedd y Bil yn darparu ar gyfer ymgysylltu â'r

gymuned. Dywedodd hefyd fod y Bil yn 'ddiogel at y dyfodol'. Y rheswm am hynny oedd bod defnyddio is-ddeddfwriaeth i nodi'r trefniadau ynglŷn â materion fel trwyddedu a chategoriâu'r Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yn golygu y gallai newidiadau yn y dyfodol gael eu gwneud mewn ymateb i adroddiad Silk II ac unrhyw ddiwygiadau eraill yn y setliad datganoli.

Holodd **Anne Jones AC**, ar ran Llafur, y Gweinidog ynghylch y meini prawf ar gyfer sut y byddai perfformiad gwael gan yr awdurdodau lleol yn cael ei gyfleu.

Atebodd y **Gweinidog** y byddai'n rhaid i'r awdurdodau lleol gyhoeddi adroddiad cyhoeddus ar eu perfformiad o'i gymharu â meini prawf a gâi eu gosod gan Lywodraeth Cymru.

Gofynnodd **Suzy Davies AC**, ar ran y Ceidwadwyr, sut roedd Llywodraeth Cymru'n cryfhau'r Gymraeg yn y system gynllunio.

Atebodd y **Gweinidog** fod Llywodraeth Cymru'n arddel agwedd ehangach na mynd i'r afael â'r mater yn benodol yn y Bil. Roedd hi wedi cyflwyno TAN 20 a phecyn cymorth perthynol ac roedd yna ddarpariaeth hefyd ym Mil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Roedd **Simon Thomas AC**, ar ran Plaid Cymru, yn feirniadol o'r diffyg cyfeiriad gan rai o'r awdurdodau lleol at y Gymraeg yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol gan ddweud bod angen iddi fod yn ystyriaeth nid yn unig ar lefel leol ond hefyd ar lefel strategol a chenedlaethol. Roedd yn credu y dylai'r Bil gynnwys datganiad o nodau ac amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer y system gynllunio.

Doedd y **Gweinidog** ddim yn derbyn y feirniadaeth ynglŷn ag ymagwedd Llywodraeth Cymru at hybu'r Gymraeg nac ynglŷn â diben statudol y system gynllunio a oedd yn ei farn ef wedi'i ddiffinio ym Mil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol "sy'n cwmpasu'r holl ddeddfwriaeth yr ydym yn bwrw ymlaen â hi".